Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (YMCHWILIO) 2017

# EBRILL 2017

Mae tri math o ddogfen gyfreithiol yn ymdrin â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio'u haddasrwydd i ymarfer, sydd **oll** yn gymwys i gofrestriad y person cofrestredig a'i addasrwydd i ymarfer:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Rheolau hyn. Felly, dylech ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh
Y Rheoliadau yw:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh
Y Rheoliadau yw:

SL(5)035 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16524

SL(5)032 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16521

SL(5)034 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16523

SL(5)033 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16522

SL(5)064 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=17273

SL(5)036 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16525

Y mae Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC"), wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), 92 (1), (2) a (3), 119(3), 121(b), 122(5), 123(3) a (4), 125(3) a (4), 128(2), 129(1) a (2), 131(8) a (9) a 132(6) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi GCC i'r perwyl hwnnw, ac yn sgil ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau a ganlyn:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### RHAGARWEINIAD


1. Enwi, cychwyn a threfniadau trosiannol 4
2. Dehongliad 4


### RHAN II

### GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL


3. Ystyriaeth ragarweiniol 6
4. Atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer 6
5. Atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad 6


### RHAN III

### YMCHWILIO


6. Y weithdrefn 7


### RHAN IV

### PWERAU YN DILYN YMCHWILIAD


7. Rhybuddion 8
8. Ymgymeriadau 8
9. Dileu o'r gofrestr drwy gytundeb 10
10. Adolygiad o benderfyniadau gan GCC 10
11. Canslo atgyfeiriad i banel addasrwydd i ymarfer 11

# RHAGARWEINIAD

## Enwi, cychwyn a threfniadau trosiannol

1. (1) Enwir y Rheolau hyn yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2017, a byddant yn dod i rym ar 3 Ebrill 2017.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn gymwys i unrhyw gŵyn a wnaed pan ddaeth y Rheolau hyn i rym, neu wedi hynny.

(3) Caiff Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Ymddygiad) 2011 ("Rheolau 2011") a Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014 ("Rheolau 2014") eu dirymu trwy hyn, ac eithrio pan fo cwyn wedi dod i law GCC cyn i'r Rheolau hyn ddod i rym, bydd GCC yn ymdrin â'r gŵyn honno yn unol â Rheolau 2011 neu Reolau 2014, yn ôl y digwydd, fel pe bai'r Rheolau hynny yn parhau mewn grym.

## Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

ystyr **"Deddf"** yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr **"honiad"** yw unrhyw wybodaeth yn ymwneud â pherson cofrestredig sy'n codi cwestiwn ynghylch a oes amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, ac mae'n cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw GCC trwy unrhyw ddull;

ystyr **"rhybuddiad"** yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 189 y Ddeddf;

ystyr "**cwyn**" yw gwybodaeth yn ymwneud â pherson cofrestredig sy'n llunio sylfaen honiad yn erbyn y person hwnnw ac sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dod i sylw GCC trwy unrhyw ddull a gwybodaeth yn ymwneud â chollfarnau a rhybuddiadau am droseddau;

ystyr **"achwynydd"** yw unrhyw berson (gan gynnwys cyflogwr neu sefydliad) sy'n gwneud cwyn yn erbyn person cofrestredig;

ystyr "**person a awdurdodir yn briodol**" yw unigolyn y mae GCC wedi dirprwyo awdurdod iddo;

mae **"cyflogwr"** yn cynnwys asiantaethau cyflogi, pobl hunangyflogedig ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (yn gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae GCC yn gwybod amdanynt;

caiff ystyr "**addasrwydd i ymarfer**" ei ddehongli yn unol ag adran 117 y Ddeddf a dehonglir y termau "**amhariad ar addasrwydd i ymarfer**" ac "**amhariad**" yn unol â hynny;

ystyr "**panel addasrwydd i ymarfer"** yw panel yn dwyn yr enw hwnnw a gyfansoddwyd yn unol â'r Rheolau Addasrwydd i Ymarfer i wneud

dyfarniadau mewn perthynas ag addasrwydd personau sydd wedi eu cofrestru yn y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;

ystyr “**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2017;

ystyr “**cofrestr**” yw’r gofrestr a gynhelir gan GCC o dan adran 80 y Ddeddf;

ystyr **“person cofrestredig”** yw person sydd wedi ei gofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol, mewn rhan ychwanegol, neu ran y gweithwyr cymdeithasol sy’n ymwelwyr Ewropeaidd neu ran y rheolwyr gofal cymdeithasol sy’n ymwelwyr Ewropeaidd, o’r gofrestr; ac mae’n cynnwys person:

(a) y byddai ei gofrestriad wedi darfod o dan adran 87(1) y Ddeddf oni bai am y ffaith bod is-adran (2) o’r adran honno yn gymwys i’r person;
(b) y mae gorchymyn atal dros dro yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;
(c) y mae gorchymyn atal dros dro interim yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;
(d) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol yn cael effaith mewn cysylltiad ag ef;

ystyr “**cofrestrydd”** yw’r person a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod ar y gofrestr sy’n ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr ***“*corff perthnasol”** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 117(4)(a) i (f) y Ddeddf;

ystyr "**trosedd berthnasol"** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 120(5) y Ddeddf;

ystyr "**personau perthnasol "** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 122(3) y Ddeddf;

ystyr “**GCC”** yw’r corff corfforaethol o’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru yn flaenorol;

ystyr “**ymgymeriad**” yw cytundeb gan y person cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad a gynigir gan GCC yn unol ag adran 126(3)(d) y Ddeddf.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni fynna’r cyd-destun fel arall:

(a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
(b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
(c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
(d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

## RHAN II

## GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL

**Ystyriaeth ragarweiniol**

3. (1) Wrth dderbyn gwybodaeth am berson cofrestredig, bydd person a awdurdodir yn briodol gan GCC yn ystyried a yw'r cyfryw wybodaeth yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer.

(2) At ddiben sefydlu a all unrhyw wybodaeth a dderbynnir fod yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer, caiff person a awdurdodir yn briodol wneud y cyfryw ymholiadau rhagarweiniol ag yr ystyrir y bo'u hangen, gan gynnwys ceisio rhagor o wybodaeth a/neu ffurflen gwyno wedi'i llenwi gan yr achwynydd.

(3) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn penderfynu nad yw'r mater yn gymwys i'w atgyfeirio ymlaen o dan adran 120(1) y Ddeddf, bydd unrhyw hysbysiad a roddir i'r personau perthnasol o dan adran 122(2) neu (4) y Ddeddf yn datgan na chymerir unrhyw gamau pellach ac y caiff y mater ei gau.

(4) Bydd yr hysbysiad o dan baragraff (3) yn cynnwys y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

**Atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer**

4. (1) Rhaid i berson a awdurdodir yn briodol sy'n rhoi ystyriaeth ragarweiniol i fater ei atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer:

a) os bydd y mater yn ymwneud â chollfarn neu rhybuddiad i berson cofrestredig mewn perthynas â throsedd berthnasol; neu
b) os bydd y mater yn ymwneud â chynnwys y person cofrestredig ar rhestr eithrio
c) os bydd y mater yn ymwneud â chanfod ffaith gan gorff perthnasol, i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer.

(2) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn atgyfeirio'r achos o dan baragraff (1)(a) neu (b) y rheol hon neu o dan adran 121 y Ddeddf, rhaid i'r hysbysiad o dan adran 123(2) y Ddeddf:

(a) gael ei roi yn ysgrifenedig cyn pen 21 diwrnod o'r atgyfeiriad;
(b) nodi ar ba sail(seiliau) y mae'r mater wedi'i atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer.

**Atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad**

5. (1) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn atgyfeirio'r mater ar gyfer ymchwilio iddo o dan adran 125 y Ddeddf, rhaid rhoi'r hysbysiad o dan adran 123(2) y Ddeddf cyn pen 21 diwrnod o'r atgyfeiriad a:

(a) datgan bod y mater wedi'i atgyfeirio ar gyfer ymchwilio iddo;
(b) amlinellu'r weithdrefn o dan reol 6.

## RHAN III

## YMCHWILIO

**Y weithdrefn**

6. (1) Yn ddarostyngedig i adran 125(5) y Ddeddf, caiff GCC benodi:

(a) un neu fwy o aelodau staff GCC i gynnal ymchwiliadau neu i gynorthwyo mewn perthynas ag ymchwiliad;
(b) un neu fwy o bersonau heblaw am aelodau staff GCC i roi cynhorthwy mewn perthynas ag ymchwiliad.

(2) Rhaid i berson(au) a awdurdodir yn briodol wneud y cyfryw ymholiadau ag y'u hystyrir yn briodol ar gyfer ymchwilio i'r honiad, a allai gynnwys gofyn am ddogfennau perthnasol oddi wrth unrhyw berson yn unol ag adran 160 y Ddeddf a chael datganiadau tyst a gwybodaeth arall.

(3) Pan fo ymchwiliad i fater yn ymwneud ag addasrwydd person cofrestredig i ymarfer wedi dod i ben, rhaid i berson a awdurdodir yn briodol ysgrifennu at y person cofrestredig:

(a) yn hysbysu'r person cofrestredig am yr honiad y gallai fod amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer;
(b) yn rhoi copïau i'r person cofrestredig o unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennau a gafwyd neu a gasglwyd gan GCC yn yr ymchwiliad i'r honiad;
(c) yn gwahodd y person cofrestredig i ymateb i'r honiad gyda sylwadau ysgrifenedig a chopïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y dymuna'r person cofrestredig iddynt gael eu hystyried, o fewn y cyfnod 28 diwrnod o ddyddiad llythyr GCC; ac
(d) yn hysbysu'r person cofrestredig y bydd y cyfryw sylwadau yn cael eu datgelu i'r achwynydd, pan fo GCC yn ystyried hynny'n briodol.

(4) Oni bai bod GCC yn ystyried hynny'n amhriodol, rhaid i GCC ddatgelu i'r achwynydd y cyfryw sylwadau a gafwyd oddi wrth y person cofrestredig, gan wahodd sylwadau ysgrifenedig cyn pen 21 diwrnod.

(5) Rhaid i GCC anfon copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan yr achwynydd o dan baragraff (4) at y person cofrestredig, ond, oni bai bod person a awdurdodir yn briodol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol yn amgylchiadau penodol yr achos, ni chaiff unrhyw sylwadau pellach a gyflwynir gan y person cofrestredig eu hystyried wrth wneud penderfyniad p'un ai i atgyfeirio'r achos i wrandawiad gerbron panel addasrwydd i ymarfer.

## RHAN IV

## PWERAU YN DILYN YMCHWILIAD

**Rhybuddion**

7. (1) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn bwriadu dyroddi rhybudd i berson cofrestredig, rhaid i GCC anfon hysbysiad, cyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad, at y person cofrestredig yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) y bwriad i roi rhybudd;
(b) y rheswm(rhesymau) dros y cynnig;
(c) hawl y person cofrestredig i roi sylwadau naill ai yn ysgrifenedig neu yn bersonol mewn gwrandawiadau gerbron y panel addasrwydd i ymarfer, yn amodol ar roi hysbysiad ysgrifenedig i GCC o'r dymuniad i arfer y cyfryw hawl, cyn pen 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad;
(d) hawl y person cofrestredig i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;
(e) esboniad o'r weithdrefn mewn gwrandawiad.

(2) Pan nad yw'r person cofrestredig yn ymateb i hysbysiad o dan baragraff (1) neu yn ymateb gan gadarnhau nad yw'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau, gall y rhybudd gael ei roi gan y person a awdurdodir yn briodol heb yr angen am wrandawiad.

(3) Pan roddir rhybudd o dan baragraff (2), rhaid i GCC anfon hysbysiad o'r penderfyniad at y canlynol, cyn pen saith niwrnod:

(a) y person cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr(wyr) y person cofrestredig (os oes un/rhai);
(d) pan fo'r person cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.

(4) Caiff GCC hysbysu'r canlynol hefyd cyn pen saith niwrnod am y penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) corff perthnasol;
(c) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

(5) Mae Rheol 24 Rheolau Addasrwydd i Ymarfer yn gymwys pan fo person cofrestredig yn ymateb i hysbysiad o dan baragraff (1) ei fod yn dymuno gwneud sylwadau:

(a) yn ysgrifenedig;
(b) yn bersonol mewn gwrandawiad gerbron panel addasrwydd i ymarfer; neu
(c) i roi sylwadau ysgrifenedig i banel addasrwydd i ymarfer.

**Ymgymeriadau**

8. (1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo person a awdurdodir yn briodol yn ystyried:

(a) bod rhagolwg gwirioneddol o ganfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â honiad yn erbyn person cofrestredig, ond

(b) na fyddai gwaredu trwy gytundeb y person cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad(au) yn groes i fudd y cyhoedd.

(2) Bydd person a awdurdodir yn briodol yn rhoi hysbysiad, cyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad, i'r person cofrestredig i'r perwyl hwnnw ac yn darparu telerau'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(3) Caiff achos ei waredu o dan baragraff (1) pan fo'r person cofrestredig:

(a) yn cyfaddef yr honiad;
(b) yn cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer; ac
(c) yn cadarnhau cyn pen 14 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ei fod yn cytuno i gydymffurfio â'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(4) Pan nad yw'r person cofrestredig yn cytuno i waredu yn unol â pharagraff (2) y rheol hon, atgyfeirir y person cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer.

(5) Pan fo'r achos yn cael ei waredu drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, bydd GCC yn rhoi hysbysiad o'r canlyniad i'r canlynol, cyn pen saith niwrnod:

(a) y person cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr(wyr) y person cofrestredig (os oes un/rhai);
(d) pan fo'r person cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.

(6) Caiff GCC hysbysu'r canlynol hefyd:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
(c) corff perthnasol.

(7) Pan fo achos yn cael ei waredu trwy gyfrwng ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, caiff person a awdurdodir yn briodol ofyn i'r:

(a) person cofrestredig; neu
(b) gyflogwr(wyr) y person cofrestredig (os oes un/rhai)

am y cyfryw wybodaeth ag a fydd yn galluogi GCC i benderfynu a gydymffurfiwyd â'r ymgymeriad neu a barheir i gydymffurfio â'r ymgymeriad(au).

(8) Pan fo'r achos yn cael ei waredu drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon ac mae person a awdurdodir yn briodol wedyn yn derbyn gwybodaeth i'r person cofrestredig gydymffurfio'n llawn â gofynion yr ymgymeriad(au), bydd person a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r person cofrestredig na ddylai'r ymgymeriad(au) fod yn gymwys mwyach a chaiff hysbysu'r personau eraill hynny a nodir ym mharagraffau (5) a (6) o'r rheol hon i'r perwyl hwnnw.

(9) Pan fo'r achos yn cael ei waredu drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon ac mae GCC wedyn yn derbyn gwybodaeth sy'n nodi na chydymffurfiwyd ag ymgymeriad(au) (neu mae'r person cofrestredig yn methu â rhoi gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gais o dan baragraff (7)(a) o'r rheol hon), bydd

GCC yn atgyfeirio'r achos i banel addasrwydd i ymarfer er mwyn cynnal adolygiad yn unol ag adran 133(3) y Ddeddf.

(10) Bydd adran 152 y Ddeddf yn gymwys i unrhyw adolygiad o ymgymeriadau gan banel addasrwydd i ymarfer.

**Dileu o'r gofrestr drwy gytundeb**

9. (1) Pan fo person cofrestredig y gwnaed honiad(au) o amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn ei erbyn wedi gwneud cais o dan adran 92 y Ddeddf i'r cofnod sy'n ymwneud â'r person hwnnw gael ei ddileu drwy gytundeb, ni chaniateir y cais heblaw o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y rheol hon.

(2) Pan benderfynir peidio ag atgyfeirio'r person cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer, gall cais y person cofrestredig i gael ei ddileu o'r gofrestr gael ei ganiatáu a chaiff y cofrestrydd ddileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys mewn perthynas â pherson cofrestredig a atgyfeiriwyd i banel addasrwydd i ymarfer, pan fo person a awdurdodir yn briodol:

(a) wedi'i fodloni bod rhagolwg gwirioneddol o ganfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â'r honiad yn erbyn y person cofrestredig, ond
(b) nad yw er budd y cyhoedd i fynnu gwrandawiad llawn ynghylch yr honiad(au) yn erbyn y person cofrestredig.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys, gall GCC wahodd y person cofrestredig i:

(a) gyfaddef yr honiad(au);
(b) llofnodi datganiad o ffeithiau cytûn;
(c) cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer oherwydd y materion a amlinellir yn y datganiad o ffeithiau cytûn.

(5) Pan fo gofynion paragraff (4) wedi'u bodloni, caiff panel addasrwydd i ymarfer ei wahodd i wneud gorchymyn i'r cofnod sy'n ymwneud â'r person cofrestredig gael ei ddileu o'r gofrestr drwy gytundeb yn unol â rheol 26 y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.

**Adolygiad o benderfyniadau gan GCC**

10. (1) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn adolygu penderfyniad o dan adrannau 131(1) a (2) y Ddeddf, bydd y gweithdrefnau canlynol yn gymwys.

(2) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato yn adran 131(4) a anfonir at y person cofrestredig y gwnaed y penderfyniad sy'n destun adolygiad yn ei gylch:

(a) gynnwys copïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau a gafwyd neu a gasglwyd gan GCC fel rhan o'r ymchwiliad rhagarweiniol i'r honiad(au), nas datgelwyd yn flaenorol;
(b) gwahodd y person cofrestredig i ymateb i'r penderfyniad i gynnal adolygiad gyda sylwadau ysgrifenedig a chopïau o unrhyw wybodaeth

neu ddogfennau y dymuna'r person cofrestredig iddynt gael eu hystyried, cyn pen 21 diwrnod o ddyddiad llythyr GCC; a

(c) hysbysu'r person cofrestredig y bydd y cyfryw sylwadau'n cael eu datgelu, pan fo GCC yn ei ystyried yn briodol, i'r achwynydd neu i berson neu bersonau eraill a enwir y mae GCC yn ystyried bod ganddynt fudd yn y penderfyniad, er mwyn cael eu sylwadau.

(3) Oni bai bod person a awdurdodir yn briodol yn ei ystyried yn amhriodol, rhaid i GCC ddatgelu i'r achwynydd a chaiff ddatgelu i unrhyw berson neu bersonau eraill a enwir y mae GCC yn ystyried bod ganddynt fudd yn y penderfyniad, y cyfryw sylwadau ag a gafwyd gan y person cofrestredig, gan wahodd sylwadau ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod.

(4) Rhaid i GCC anfon copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan yr achwynydd at y person cofrestredig, ond, oni bai bod person a awdurdodir yn briodol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol yn amgylchiadau penodol yr achos, ni chaiff unrhyw sylwadau pellach a gyflwynir gan y person cofrestredig eu hystyried wrth wneud penderfyniad ym mharagraff (5).

(5) Caiff person a awdurdodir yn briodol benderfynu:

(a) atgyfeirio mater i banel addasrwydd i ymarfer;
(b) atgyfeirio mater i ymchwiliad;
(c) gwaredu'r achos gan ddefnyddio un o'r dulliau a ddisgrifir yn adran 126(3) y Ddeddf.

**Canslo atgyfeiriad i banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer**

11. (1) Pan fo person a awdurdodir yn briodol yn ystyried p'un ai i ganslo atgyfeiriad i banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 132 y Ddeddf, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r achwynydd.

(2) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1):


(a) ddatgan y rheswm(rhesymau) pam y gallai'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn adran 132(1)(a) neu (b) fod yn gymwys;
(b) gwahodd yr achwynydd i gyflwyno unrhyw sylwadau cyn pen cyfnod o 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.

(3) Heb fod yn gynt na diwedd y cyfnod 21 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2), rhaid i'r person a awdurdodir yn briodol:

(a) ystyried unrhyw sylwadau a gafwyd gan yr achwynydd;
(b) dod i un o'r dyfarniadau a ddisgrifir yn adran 132(2)(a) neu (b) y Ddeddf;
(c) rhoi rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Rhaid rhoi hysbysiad o ddyfarniad o dan adran 132(4) y Ddeddf cyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad.

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**



17 March 2017

……………………………………………… ……………………………….

**Arwel Ellis Owen**
**Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Dyddiad**